

CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

4.00 – 5.00 PM, 24 MEHEFIN 2021

Yn bresennol drwy gyfrwng Teams:	Bethan Davies (Cadeirydd), y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, y Cynghorydd Rhian Evans, Helen Ovens, Trish Huws, Cathryn Lloyd-Williams, Siwan Evans, Llio Rhys, Leah Griffiths, Hefin Jones (Pennaeth).
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
1	YMDDIHEURIADAU:	
	Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Eirian Evans. PENDERFYNWYD derbyn yr ymddiheuriad.	
2i	DATGAN BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD: Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:	
	a) yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b) byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c) bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r pwyntiau uchod.	
2ii	COFNODION:	
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24.03.2021 eu cadarnhau ac oherwydd cyfyngiadau Covid-19, byddent yn cael eu llofnodi yn ddiweddarach.	
2iii	MATERION YN CODI O'R COFNODION:	
	Cofnod 3i(b) – Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen - Dywedodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn wrth yr aelodau fod canllawiau newydd wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf ynghylch y ffyrdd o ddysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.	
2iv	PWYLLGORAU:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	PENDERFYNWYD nodi nad oedd yr un cyfarfod Pwyllgor wedi'i gynnal.	
2v	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHieni:	
	<p>Roedd Llywodraeth Cymru yn nodi "bod yn dal disgwyl i Lywodraethwyr Ysgolion baratoi adroddiad blynyddol ond bydd y rheoliadau yn cael eu haddasu gan ofyn am 'ymdrechion rhesymol' o ran gwneud hynny. Ni fydd y gofynion i adrodd ynghylch perfformiad yr ysgol, absenoldeb a thargedau yn yr adroddiad blynyddol, bellach yn gymwys'.</p> <p>Byddai'r Pennaeth a'r Cadeirydd yn paratoi adroddiad.</p>	Pennaeth / Cadeirydd
3i	ADRODDIAD Y PENNAETH:	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes wedi bod ar gael i'r aelodau. Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol:	
	<p>a) Cynllun Datblygu'r Ysgol:</p> <p>Roedd y Cynllun eisoes wedi'i rannu â'r aelodau.</p> <p>Ymhlith y blaenoriaethau oedd paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.</p> <p>Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i baratoi'r dosbarthiadau ar gyfer mis Medi. Roedd dogfen ynglŷn â hyn eisoes wedi cael ei rhannu â'r aelodau. Byddai'r ddogfen hon hefyd yn cael ei rhannu â'r rhieni.</p> <p>Roedd amser ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu wedi'i gynnwys a byddai llawer yn dibynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir.</p> <p>Gallai nifer o'r disgyblion ddod o dan drefniadau'r Cod ADY newydd a byddai angen cynnal nifer o gyfarfodydd.</p> <p>Roedd angen i'r Llywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r newidiadau a'r rôl y byddent yn ei chwarae yn hyn oll. Roedd hyfforddiant ar gael ar Teams.</p>	
	<p>b) Diolchwyd i'r staff am y ffordd yr oeddent yn delio â'r disgyblion yn feunyddiol ac am drafod materion personol a sensitif mewn ffordd broffesiynol. Roedd y disgyblion yn hapus i siarad yn agored.</p>	
3ii	CYLLID:	
	<p>PENDERFYNWYD:</p> <p>Derbyn y gyllideb waith a osodwyd gan yr Ysgol;</p> <p>Nodi bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol;</p> <p>Nodi bod rhagor o gyllid wedi dod i law drwy gyfrwng grantiau er mwyn ei wario ar staffio;</p> <p>Nodi y rhagwelid gwaged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;</p>	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	<p>Nodi nad oedd dim toriadau wedi'i wneud i nifer y staff.</p> <p>Roedd angen i'r aelodau fod yn ymwybodol y byddai yna gynnydd yng nghyflogau'r staff. Nid oedd rhagor o fanylion ar gael hyd yma.</p>	
4	HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:	
	<p>PENDERFYNWYD nodi'r canlynol:</p> <p>Gofynnwyd i bob Llywodraethwr gwblhau hyfforddiant ADY lefel 1 Llywodraeth Cymru a oedd ar gael ar Teams.</p> <p>Roedd Fforwm y Llywodraethwyr ar gyfer tymor yr haf wedi'i gynnal.</p>	
5i	POLISIÄU, POLISIÄU ANSTATUDOL:	
	<p>PENDERFYNWYD nodi bod y Polisiäu Anstatudol canlynol ar waith yn yr ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Polisi Recriwtio Diogel / Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Polisi Urddas yn y Gwaith Polisi Ymweliadau Addysgol 2018 Polisi Anghenion Gofal Iechyd Polisi Tywydd Garw / Amharu ar Wasanaeth Polisi Caniatäd i fod yn Absennol Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal Y Polisi ar gyfer Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion. Polisi Rheoli'r Safle Polisi Atal Eithafiaeth Canllawiau Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion Polisi Toiledau'r Ysgol Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch Polisi Rhwydweithio Cymdeithasol ac E-ddiogelwch Polisi Rheoli Pwysau Polisi Camddefnyddio Sylweddau Datblygu Cynaliadwy Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Polisi Chwythu'r Chwiban Polisi Bwyd a Ffitrwydd ar gyfer yr Ysgol gyfan 	
5ii	Polisi Enghreifftiol Cyflogau Athrawon	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi.	
6	GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:	
	PENDERFYNWYD: Llongyfarch Sionna Hutton ar enedigaeth ei merch; Dymuno pen-blwydd hapus i Llio Rhys	
7	UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:	
a)	<p>Traffig y tu allan i'r ysgol:</p> <p>Dywedwyd bod maint y traffig y tu allan i'r ysgol ac yn y pentref yn fwy cyffredinol ynghyd â chyflymder y traffig hwnnw yn peri pryder a bod llawer o drafodaethau wedi'u cynnal.</p> <p>Roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion ac roedd pryder penodol ynghylch y rheini oedd yn cerdded neu'n seiclo i'r ysgol ac yn teithio i weithgareddau ar benwythnosau.</p> <p>Roedd problem y goleuadau wedi'i datrys.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw welliannau i'r Gefnffordd.</p> <p>Roedd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn wedi derbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru a nodai wybodaeth am raglen o arolygon cyflymder ac arolwg blynyddol. Roedd disgwyl y byddai asesiad ar gyfer croesfan yn cael ei gynnal.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd bod y canlynol yn cael ei wneud:</p> <p>Bod y Corff Llywodraethol yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at y pryderon;</p> <p>Bod y llythyr yn cynnwys llythyron cefnogi a thystiolaeth oddi wrth y Cyngor Cymuned, Arolwg Sustrans, llythyr oddi wrth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a llythyr oddi wrth y Cylch Meithrin.</p> <p>Diogelwch y disgyblion oedd y flaenoriaeth.</p>	
b)	<p>Clwb ar ôl Ysgol:</p> <p>Roedd y rhieni wedi bod yn gofyn pryd oedd hi'n debygol y byddai'r Clwb ar ôl Ysgol yn ailagor.</p> <p>Dywedwyd nad oedd modd i'r grwpiau cyswllt gymysgu ar hyn o bryd. Pan fyddai amgylchiadau yn caniatáu, byddai'r clwb yn ail-agor ac roedd canllawiau newydd yn cael eu paratoi yn barod ar gyfer mis Medi.</p>	
c)	<p>Diolch yn fawr:</p> <p>Ar ran y llywodraethwyr, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at Jack Williams i ddiolch iddo am ei holl waith caled.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth a'r holl staff am eu gwaith caled</p>	

Cofnod o Draffodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	dros y flwyddyn anodd ddiwethaf. Adleisiwyd hyn gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn.	
8	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:	
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr 2021.	

PL
28:06:2021